

## PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2023

**Cadeirydd:** Cynghorydd P.Rogers

**Is-gadeirydd:** Cynghorydd C.Jordan

**Cynghorwyr:** T.Bowen, C.Clement-Williams, J.Henton, J.Jones, R.G.Jones, S.Paddison, R.Phillips, S.H.Reynolds a/ac A.J.Richards

**Swyddogion sy'n Bresennol:** K.Jones, A.Thomas, C.Griffiths, H.Jones, N.Daniel, S.Davies, C.Furlow-Harris, H.Lewis, L.McAndrew, A.Thomas, K.Warren a/ac L.Willis

**Gwahoddedigion y Cabinet:** Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins a/ac S.A.Knoyle

---

### 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim.

### 3. CRAFFU CYN PENDERFYNU

#### Gosod Sylfaen Treth y Cyngor 2024/25 (Tudalennau 11 - 16)

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch gosod Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod pob cyngor yng Nghymru yn darparu ei Sylfaen Treth y Cyngor i Lywodraeth Cymru ar 31 Hydref. Mae pob tŷ ym mand Treth y Cyngor A - I yn cael ei gyfrif a'i drosi i fand cyfwerth â Band D, ac mae'r swm amcangyfrifedig o eiddo newydd yn cael ei ychwanegu i roi Sylfaen Treth y

Cyngor. Bydd Asesiad o Wariant Safonol Llywodraeth Cymru (SSA) yn gwerthuso faint y mae angen i'r cyngor ei wario i ddarparu gwasanaethau, caiff swm yr incwm a gynhyrchir drwy dreth y cyngor ei ddiwynnu a defnyddir fformiwla i gyfrifo swm y Grant Cynnal Refeniw.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai newidiadau i'r system fandio bresennol yn effeithio ar y fformiwla.

Cadarnhaodd swyddogion fod 85% o eiddo yng Nghastell-nedd Port Talbot yn dod o fewn bandiau A-C sy'n gostwng ffigwr y band D cyfatebol. Nodwyd y byddai cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i'r system treth y cyngor yn cael eu hadrodd i'r Cabinet er mwyn ystyried yr opsiynau arfaethedig.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

### **Adolygiad o Strategaeth Digidol Archwilio Cymru - Ymateb Sefydliadol (Tudalennau 17 - 66)**

Cyfeiriodd yr Aelodau at y gronfa drawsnewidiol wrth gefn o £1.2m a grybwyllwyd yn yr adroddiad gan gwestiynu pam nad oedd llinell amser ar gael.

Dywedodd y Prif Swyddog Digidol fod y cynllun cyflawni sy'n gysylltiedig â Strategaeth Ddigidol, Data a Thechnoleg y cyngor yn cael ei ddatblygu ar adeg adolygiad Archwilio Cymru. Roedd yr adolygiad yn nodi trefniadau cadarn y cyngor ar gyfer cyflawni'r cynllun. Mae'r strategaeth bellach yn fyw ac mae proses lawn ynghylch blaenoriaethu gofynion i wasanaethau digidol. Unwaith y mae'r gofynion yn cael eu blaenoriaethu drwy'r Bwrdd Trawsnewid Digidol cânt eu pennu fel rhan o lwybr digidol a'u monitro'n llawn a'u hadrodd yn ôl i Gyfarwyddwyr Corfforaethol yn chwarterol, a bydd adolygiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i Is-bwyllgor (Polisi ac Adnoddau) y Cabinet.

Gofynnodd yr Aelodau am y prosiectau a oedd eisoes yn rhan o'r Olrheiniwr Llwybrau ac am eu cynnydd, a gofynnwyd sut y gellir gwneud asesiad i nodi'r hyn y gellir ei gyflawni gyda'r gronfa wrth gefn o £1.2m. Gofynnodd yr Aelodau hefyd sut y gellir rhoi strategaeth tymor hir ar waith ar gyfer digideiddio gan ystyried cyflymder y newidiadau yn y maes hwn a gofynnwyd i'r Strategaeth Digidol gael ei hychwanegu at y Flaenrhaglen Waith.

Cadarnhaodd swyddogion nad oedd llinell amser wedi'i bennu ar gyfer y strategaeth oherwydd pa mor gyflym y mae technoleg ddigidol yn newid. Bydd y datganiadau strategol yn y strategaeth yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn erbyn y rhaglenni gwaith sy'n rhan o'r cynllun cyflawni, yr amcanion cyffredinol yn y cynllun corfforaethol a blaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth. O ran y gronfa drawsnewid, mae gwaith eisoes ar y gweill i archwilio sut y gall hyn gefnogi adnoddau'r prosiectau trawsnewid mwyaf. Cymerir gofal i sicrhau bod y prosiectau cywir yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y cyngor ac adroddir am hyn ar gyfer craffu ac adolygiad llawn.

Holodd yr Aelodau pryd y byddai diweddariad ar y llinell amser ar gael ac a oedd yr hinsawdd economaidd bresennol yn cael effaith ar waith y Strategaeth Digidol.

Dyweddodd swyddogion wrth Aelodau fod y cynllun cyflawni ar gael i'w gyhoeddi fel y gellir ei rannu ag Aelodau. Mae pob un o'r rhaglenni gwaith o fewn y llwybr digidol yn cael ei gategoreiddio ar draws y gyfarwyddiaeth, gyda goblygiadau ariannol yn cael eu hadolygu fel rhan o broses y bwrdd trawsnewid. Mae tua 30/40 o raglenni gwaith gwahanol ar y gweill, unwaith y cytunir bod ganddynt ddigon o adnoddau, dyddiad dechrau a gorffen gyda datganiadau gwireddu buddion yn eu herbyn - bydd hyn yn cael ei rannu ag Aelodau. Cadarnhaodd swyddogion fod yr arbedion effeithlonrwydd ariannol y gallai'r rhaglenni hyn eu cynhyrchu yn cael eu hadolygu gyda'r meysydd gwasanaeth. Mae digidol yn ffordd o drawsnewid gwasanaethau ac mae'n rhaid rheoli adnoddau'n ofalus i gefnogi'r trawsnewidiad mewn meysydd gwasanaeth eraill. Mae meysydd ffocws, fel Deallusrwydd Artiffisial ac awtomeiddio sydd wedi dechrau gwneud enillion net o ran arbed amser swyddogion.

Nododd yr Aelodau y gallai rhai buddsoddiadau ddarparu buddion ariannol yn y tymor hir.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod cyllideb y Gwasanaethau Digidol wedi cynyddu £400 mil dros y 3 blynedd diwethaf i greu gallu ychwanegol. Bydd mentrau trawsnewid yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Rhagfyr, gan gynnig defnyddio cronfeydd wrth gefn yn awr i gyflawni arbedion refeniw parhaus tymor hwy.

Awgrymodd yr Aelodau seminar ddigidol i archwilio prosiectau'n fanylach. Cytunodd y Cadeirydd y byddai seminar yn cael ei threfnu ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

### **Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol "Adfer, Ailosod, Adnewyddu" 2022-2027 ar gyfer y cyfnod: 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 (Tudalennau 67 - 128)**

Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 68, eitem 6 yr adroddiad a holwyd faint o'r Cynllun Corfforaethol fyddai'n seiliedig ar ganlyniadau'r ymgyrch Parhewch i Sgwrsio a p'un a oedd nifer digonol o ymatebion.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol wrth yr Aelodau mai un ffactor yn unig a fydd yn cael ei ystyried wrth adolygu'r Cynllun Corfforaethol oedd yr ymgyrch Parhewch i Siarad. Bydd cyfleoedd drwy'r ymgynghoriad ar y Gyllideb sy'n dechrau ym mis Rhagfyr, o ran y gyllideb a'r blaenoriaethau cyflawni ar gyfer 2024/25. Mae'r cyngor wedi ymgysylltu â'r Gwasanaethau Ymchwil Barn fel cwmni ymchwil cymdeithasol annibynnol, a fydd yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg Parhewch i Siarad ac yn rhoi dealltwriaeth fanwl o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a'r data ansoddol a meintiol a gesglir fel rhan o'r arolwg.

Roedd yr Aelodau'n anhapus gyda nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg Parhewch i Siarad ac yn cwestiynu faint o bwysoliad sy'n cael ei roi i'r arolwg yn hytrach nag elfennau eraill.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol nad yw'r arolwg yn cael ei bwysoli i unrhyw un elfen benodol. Mae'n bwysig sicrhau bod barn preswylwyr, aelodau, busnesau, y 3ydd sector a phartneriaid, gan gynnwys undebau llafur yn cael ei chasglu. Bydd gan Aelodau gyfleoedd i gyfrannu at y trafodaethau ynghylch blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2024/25

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn anodd cael mewnwelediad gan holl adrannau gwahanol y gymuned ond rhoddodd sicrwydd mai'r cyngor llawn sy'n penderfynu ar yr amcanion lles ac yn cytuno ar y camau gweithredu. Wrth gasglu gwybodaeth, mae'n bwysig deall pwy sydd wedi rhoi eu barn a deall na fydd un set ddata yn darparu set berffaith o flaenoriaethau oherwydd blaenoriaethau unigol pobl.

Holodd yr Aelodau a oedd penodi corff allanol yn yr hinsawdd ariannol bresennol yn briodol. Nododd yr Aelodau y dylid gwneud mwy o ganfasio gyda'r cyhoedd a staff i gasglu data.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol fod y cwmni allanol wedi'i benodi i ddarparu'r gallu i gyflawni'r gwaith. Yn y dyfodol, bydd gallu yn cael ei wella yn y Gwasanaethau Digidol i symud ymlaen i ddatblygu'r wybodaeth.

Cwestiynodd yr Aelodau gost y cwmni allanol gan ddweud nad oes digon o arolygon ymadael yn cael eu cynnal.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd y gost ar gael yn y cyfarfod heddiw ond gellir rhoi adborth i'r Aelodau. Bydd gwaith yn cael ei wneud i gasglu Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth wrth i Gynllun Corfforaethol 2024/25 gael ei ddatblygu, a bydd hyn yn cynnwys adborth staff.

Nododd yr Aelodau fod y Prif Weithredwr yn rhagweithiol wrth gael barn preswylwyr a staff ond gall blinder ymgynghori fod yn broblem i rai pobl.

Cydnabu'r Prif Weithredwr y gall blinder ymgynghori fod yn broblem, ond tynnodd sylw at y ffaith bod gan y cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori. Mae newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth mewn perthynas â dyletswyddau'r Strategaeth Cyfranogiad yn golygu bod rhwymedigaeth fwy helaeth i ymgynghori cyn i gynigion gael eu llunio ac ar adegau aml yn ystod y broses benderfynu, a fydd yn cynnwys pobl wrth fonitro a gwerthuso.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

#### 4. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Gofynnodd yr Aelodau a ddylid ychwanegu diweddariad ar y Strategaeth Digidol at y Flaenraglen Waith.

Nodi'r Flaenraglen Waith gyda'r ychwanegiad uchod.

5. **EITEMAU BRYD**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

6. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynwyd: Gwahardd y cyhoedd o'r eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

7. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a Rownd 2 y Rhaglen Sgiliau a Lluosi (eithriedig o dan baragraff 14) (Tudalennau 205 - 234)**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

**Cynghorydd P.Rogers**

**CADEIRYDD**